# DAVIES, EVAN (1750 - 1806), gweinidog gyda'r Annibynwyr

**Enw:** Evan Davies
**Dyddiad geni:** 1750
**Dyddiad marw:** 1806
**Rhiant:** James Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Thomas Harris Lewis

Ganwyd yn 1750 yn Nyffryn Llynod ym mhlwyf Llandysul. Yr oedd ei dad, James Davies, yn weinidog eglwysi'r Cilgwyn, Abermeurig, a Chiliau Aeron. Bu Evan Davies am rai blynyddoedd yn athrofa Caerfyrddin. Yn 1775 urddwyd ef yn gyd-weinidog eglwys Llanedi, lle y llafuriodd hyd ddiwedd ei oes. Bu farw 12 Ebrill 1806 yn 56 oed.

Yr oedd Evan Davies yn bregethwr derbyniol ac yn r tangnefeddus a diwyd iawn. Nid ymyrrai yn y dadleuon diwinyddol a gynhyrfai'r eglwysi yn y dyddiau hynny ond ymdaflai i'r gwaith o ehangu terfynau Annibyniaeth yn y cylch. Bu'n foddion i sefydlu nifer o achosion, megis Llanelli (Capel Als), 1780, Cross Inn (Rhydaman), 1782, Penbre, ac, yn wyneb llawer o erledigaeth, Cydweli (Capel Sul), 1785.

## Awdur

**Thomas Harris Lewis**, (1972)

## Ffynonellau


*Y Diwygiwr*, 1835, 131-4

*Transactions of the Carmarthenshire Antiquarian Society and Field Club*, 1936, 41-2

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iii, 504

*Enwogion Ceredigion* (1869), 26-7


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733012


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu